

Diweddariad Covid-19 – Marchnadoedd Porthiant

Gwybodaeth yn gywir am 12:30pm ar 03.04.2020

- Mae prisiau cnydau protein dros ben wedi codi i'r entrychion oherwydd effeithiau Covid-19 ar arian cyfred, cyflenwadau a galw
- Mae prisiau olew crai yn dal yn isel (\$30-£35 y gasgen), sy'n effeithio ar faint yr elw am falu rēp had olew ac yn gwanhau Rwbl Rwsia
- Mae prisiau blawd rēp had olew yn cynyddu oherwydd y gostyngiad ym maint yr elw gnwd wedi'i falu a llai o weithgarwch malu
- Mae prisiau wedi'u rhagbennu yn dal yn ffafriol – oddeutu £200/t o fis Awst ymlaen am gynnyrch a gaiff ei gludo o longau gan brynwyr
- Mae prisiau blawd ffa soia yn cynyddu ar sail sibrydion am darfu ar borthladdoedd yr Ariannin
- Mae Rwsia wedi cyflwyno cwotâu ar allforion cnydau rēp had olew a grawn
- Mae prisiau haidd porthi yn y DU yn ffafriol o'u cymharu â phrisiau gwenith porthi
- Mae prinder cyflenwad yn achos rhai cnydau protein canolig (grawn distyllwyr) ar ddigwydd oherwydd y diffyg galw am ethanol (gostyngiad o 50%)
- Nid yw'n adeg briodol i brynu'n wyllt

Cnydau grawn

Mae pris 'prynu' targed CRM ar gyfer gwenith yn LIFFE mis Tachwedd bellach yn £160. Fodd bynnag, mae haidd yn dal yn cynnig gwerth am arian rhagorol, ac mae'n debygol o barhau i fod felly. Cafwyd cynnydd yng nghyfanswm yr haidd gwanwyn sydd wedi'i blannu oherwydd yr hydref gwlyb, ac yn sgîl diffyg digwyddiadau chwaraeon, ceir gostyngiad yng ngweithgarwch y diwydiant bragu, felly mae'r premiwm a delir am haidd i'w droi'n frag wedi diflannu fwy neu lai, felly bydd mwy o haidd porthi yn taro'r farchnad.

Nid yw cyfanswm yr indrawn a blannir yn yr Unol Daleithiau wedi bod mor uchel ers 2021, ond nid yw cyfanswm y gwenith a blannir yno wedi bod mor isel ers 1919. Bellach, Rwsia, rhanbarth y Môr Du a'r Wcráin yw prif allforwyr gwenith ar hyn o bryd, a chaiff prisiau eu dylanwadu gan y tywydd yn y rhanbarthau hyn. Bydd angen glaw yn rhanbarth y Môr Du erbyn canol Ebrill, neu fel arall, caiff rhagolygon pwysau'r cnwd eu heffeithio. Â phrisiau olew yn isel iawn, mae Rwbl Rwsia wedi cwmpo yn erbyn y \$, gan orfodi Rwsia i gyflwyno cwotâu ar allforion (mae'r un peth wedi digwydd yn yr Wcráin a Chasachstan).

Mae gwenith o'r DU yn gymharol ddrud o'i gymharu ag indrawn o'r Unol Daleithiau, felly dylai hyn gyfyngu ar unrhyw adferiad yn y pris. Mae prisiau indrawn o'r Unol Daleithiau wedi cwmpo oherwydd mae prisiau isel olew wedi dinistrio'r galw am ethanol. Nid yw hyn yn golygu fod prinder grawn distyllwyr ar y gweill, ond efallai na wnaiff prisiau grawn indrawn adfer; oherwydd bydd 30-60 miliwn tunnell fetrig ychwanegol ar gael. Y neges yn achos cnydau grawn yw 'peidio prynu'n wyllt', mae'r adferiad yn y pris wedi cael ei achosi gan Covid-18 – rydym ni bellach yn disgwyl i hynny gael ei gywiro yn y farchnad fyd-eang.

Proteinau

Mae prisiau blawd ffa soia yn anwadal iawn oherwydd y cynnydd dirybudd yn y galw, ond hefyd oherwydd y ffaith fod cyfyngiadau cwarantin ar longau yn yr Ariannin, allforiwr mwyaf blawd ffa soia, wedi cael eu hymestyn tan ganol mis Ebrill. Gallai hyn hefyd effeithio ar y cyflenwad o gibau soia.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Bydd uchafbwynt y gweithgarwch malu soia yn yr Ariannin yn digwydd ym Mehefin a Gorffennaf, ac os codir cyfyngiadau ar allforion, dylem ni weld y pris yn cael ei gywiro gan y farchnad. Byddwn ni'n defnyddio termau cynhyrchu llaeth i drafod effaith y gymhareb prisiau Llaeth a Phorthiant ar gynnyrch llaeth; bydd ffermwyr yn yr Unol Daleithiau yn trafod y gymhareb prisiau Ffa Soia a Grawn Indrawn sy'n oddeutu 2.4-2.5 ar hyn o bryd, sy'n golygu eu bod yn debygol o blannu mwy o soia nag indrawn.

Mae prisiau blawd rêp wedi bod yn cynyddu'n gyflymach na phrisiau blawd soia, ac mae prisiau am flawd sydd dros ben bellach yn £255/t ar gyfer mis Mai, o'i gymharu â £370-375/t yn achos blawd soia. Mae prisiau sydd wedi'u rhagbennu am gnydau'r hydref yn £200/t fwy neu lai ar hyn o bryd. Yn fyd eang, mae'n debygol y gwnaiff Canada blannu llai o rêp had olew, oherwydd mae gwenith yn cynnig elw gwell. Ar y llaw arall, mae gan gnwd rêp had olew Awstralia ragolygon gwell.

Paratowyd Kite Consulting